



Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MB/CS/3187/15

14 Awst 2015

Annwyl Gyfeillion

Yn dilyn cyhoeddiadau diweddar Llywodraeth y DU ynghylch newid y system gynllunio er mwyn gallu manteisio'n hwylusach ar nwy siâl, rwy'n ysgrifennu atoch i esbonio bod y cyhoeddiadau hyn yn ymwneud â Lloegr yn unig ac i'ch atgoffa o safbwynt Llywodraeth Cymru ynghylch datblygiadau o'r fath.

Mae Llywodraeth Cymru'n dal i gredu nad yw'r technolegau hollti hydrolog yn argyhoeddi a'n bod felly'n glynu wrth ein polisi rhagofalus ynghylch cynigion sy'n cynnwys elfen o 'ffracio'. At hynny, ym mis Chwefror cyhoeddais Gyfarwyddyd Hysbysu (Cyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysu) (Olew a Nwy Anghonfensiynol) (Cymru) 2015) ynghyd â llythyr oddi wrth y Prif Gynllunydd yn nodi'r gofyn ar awdurdodau cynllunio lleol i roi gwybod imi am bob cais cynllunio ar gyfer cynnal gwaith hollti hydrolog y maent yn ystyried ei gymeradwyo.

Seilir gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cynhyrchu ynni yn y dyfodol ar adnoddau ynni adnewyddadwy cyfoethog Cymru sy'n cynnig cyfleoedd cyffrous a chyflym. Yn unol â'r egwyddorion a ddisgrifir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), rhaid inni fynd i'r afael â phwnc hinsawdd sy'n newid ar unwaith trwy ddefnyddio technolegau ynni adnewyddadwy yn effeithiol. Yn ogystal â'n helpu i ryddhau llai o allyriadau CO₂, maen nhw'n creu cyfleoedd real iawn ar gyfer datblygu economi gynaliadwy yng Nghymru.

Mae Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 8 yn gosod fframwaith polisi cynllunio clir mewn cysylltiad ag ynni adnewyddadwy a byddaf yn diweddarau'r Pecyn Cymorth ar Ynni Adnewyddadwy er mwyn rhoi rhagor o help i awdurdodau lleol wrth iddyn nhw baratoi neu adolygu Cynlluniau Datblygu Lleol.

Gwynt ar y tir yw'r ffurf fwyaf fasnachol aeddfed o gynhyrchu ynni adnewyddadwy ar hyn o bryd, ac er gelyniaeth Llywodraeth y DU i'r dechnoleg hon, mae Llywodraeth Cymru am i bobl Cymru elwa ar y cyfleoedd economaidd y mae prosiectau gwynt ar y tir yn eu cynnig o ran cyfleoedd gwaith a buddiannau cymunedol. Rhaid i'r system gynllunio roi sicrwydd i gymunedau a datblygwyr ynghylch eu cynigion ar gyfer gwynt ar y tir ac rwy'n ymwybodol bod nifer o awdurdodau cynllunio lleol heb gynnig y lefel o wasanaeth sydd ei angen er mwyn gallu gwneud penderfyniadau cynllunio amserol.

Mae gwaith a gomisiynwyd wrth ddatblygu Deddf Cynllunio (Cymru) yn tynnu sylw at y ffaith bod prosesau penderfynu rhai awdurdodau cynllunio lleol yn annerbyniol o hir. O ganlyniad i'r Ddeddf, rydym wedi ymgynghori ar wneud ffermydd gwynt sy'n fwy na 25MW yn Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) sy'n golygu mai Gweinidogion Cymru

fydd yn gyfrifol am benderfynu arnynt. Rwyf wrthi'n ystyried yr ymatebion sydd wedi dod i law.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd wedi cyhoeddi'n ddiweddar y bydd yn dod â chymorth y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy ar gyfer ffermydd gwynt mwy i ben cyn pryd. Yn fy marn i, mae'n anorfod y bydd hynny'n arwain at newid y ffocws o blaid cynlluniau llai. Rydym ni yng Nghymru mewn sefyllfa i fanteisio ar brosiectau llai hefyd a chyhoeddais fy ngweledigaeth yn ddiweddar yn Twf Gwyrdd Cymru: Ynni Lleol sy'n rhestru'r camau rwyf am eu cymryd yn ystod y Weinyddiaeth hon.

Mae Llywodraeth Cymru'n benderfynol o roi arweiniad wrth fynd i'r afael ag achosion y newid yn yr hinsawdd. Er gwaetha'r cyhoeddiadau yn Lloegr, yn ein barn ni, mae ynni adnewyddadwy'n elfen allweddol fydd yn sicrhau bod Cymru'n llwyddo i ddatblygu'n gynaliadwy er lles cenedlaethau'r dyfodol. Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ofalu eu bod yn penderfynu ar geisiadau cynllunio o fewn yr amserlenni statudol.

Yn gywir

A handwritten signature in cursive script, reading 'Carl Sargeant'.

Carl Sargeant AC / AM
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Minister for Natural Resources